

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd brynhawn Iau 22 Mehefin, 2017 am 10.30am ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet oedd yn bresennol:-

A. Morgan (Cadeirydd), M. Norris

R. Bevan M. Lewis A. Crimmings G. Hopkins

J. Rosser C. Leyshon

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:-

E. Webster S. Bradwick

Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr A. Wilkins – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd, a Llywodraethol

Mr C Hanagan – Cyfarwyddydd Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus - Ysgrifennydd i'r Cabinet

Mr C. Lee – Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddydd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms E. Thomas – Cyfarwyddydd Dros Dro, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal Stryd

Mr P. Mee – Cyfarwyddydd Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddydd, Adnoddau Dynol

Mr N. Jones, Cyfarwyddydd Gwasanaeth, Cyllid Gweithrediadol

Mr T. Jones – Pennaeth Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Ms.R. Edwards - Pennaeth Gofal i Gwsmeriaid

1. DATGANIAD O FUDDIANNAU

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

2. COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2017 a 15 Mawrth, 2017, yn rhai cywir.

3. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet y newyddion diweddaraf i Aelodau o'r Cabinet ar y rhestr arfaethedig a gynigiwyd o faterion y mae angen eu hystyried gan y Cabinet dros Flwyddyn 2017 – 18 y Cyngor. Nodwyd bod gwneud defnydd o'r rhaglen yn rhoi cymorth i natur agored y broses o wneud penderfyniadau, a'i bod hi'n rhoi mwy o gyfle ar gyfer Craffu Ymlaen Llaw. Ychwanegodd y Swyddog fod adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi canmol yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor er mwyn gwella'r broses Graffu, ac y byddai ef a'r Dirprwy Arweinydd yn mynychu Pwyllgorau yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd Aelodau at Atodiad 1 o'r adroddiad er mwyn trafod yr wybodaeth wedi'i nodi yn y rhaglen waith. Dywedwyd wrth Aelodau taw dogfen fyw yw'r rhaglen, er mwn caniatáu lle ar gyfer ychwanegu neu ddileu adroddiadau drwy gydol y flwyddyn.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn 2017-18 y Cyngor, ac i gael diweddariad pellach bob tri mis.

4. ARDRETHI ANNOMESTIG - CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR CYMRU 2017/18

Rhoddodd y Cyfarwyddydd Gwasanaeth, Cyllid Gweithrediadol wybodaeth i Aelodau o'r Cabinet am gynllun newydd wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru (LIC) er mwyn cynnig rhyddhad ardrethi ar gyfer rhai mathau penodol o fusnesau.

Hysbysodd y Swyddog, gan roi gwybod fod Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr Cymru yn rhan o becyn o fesurau Llywodraeth Cymru sydd ar gael er

mwyn cynorthwyo busnesau. Esboniwyd bod Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ar gyfer 2017-18 yn eistedd ochr yn ochr â chynlluniau eraill fel, er enghraifft, y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach tan fis Mawrth 2018, a'r Cynllun Rhyddhad Trosiannol a oedd hefyd yn lleihau effaith ailbrisiad 2017 ar gyfer rhai busnesau sydd wedi'u heffeithio'n andwyol.

Esboniwyd y byddai Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr yn gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, ac y byddai'n cyflenwi £10 miliwn o arian ym mhob rhan o'r wlad hon er mwyn cynorthwyo i leihau biliau ardrethi ar gyfer trethdalwyr y Stryd Fawr, e.e. manwerthwyr, a mangreoedd bwyd a diod.

Esboniodd y Swyddog y byddai'r Cynllun yn Cyflenwi dwy haen o ryddhad ardrethi annomestig, hyd at £500 (Haen 1) neu £1,500 (Haen 2), i fanwerthwyr Stryd Fawr cymwys sy'n meddiannu mangreoedd sydd â gwerth trethiannol o £50,000 neu'n llai ym mlwyddyn ariannol 2017-18, yn amodol ar rai meini prawf penodol ac ar gyfyngiadau Cymorth Gwladwriaethol. Cyfeiriwyd Aelodau'r Cabinet at Adran 4.3 o'r adroddiad lle'r oedd manylion pellach wedi'u nodi.

Cyfeiriodd y Swyddog at arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016, a ddatganai fod rhaid i'r mangreoedd cymwys fod yn cael eu defnyddio yn gyfan gwbl, yn hollol neu'n bennaf fel mangreoedd manwerthu, o fewn y 'Stryd Fawr', gyda'r bwriad fod mangreoedd manwerthu yn cynnwys 'siopau, bwytai, caffis a thafarndai'. Ychwanegodd y Swyddog ei bod yn bwysig nodi nad oedd unrhyw ddiffiniad o beth oedd ystyr 'Stryd Fawr' yn yr arweiniad. Gan hynny, câi'r Cyngor ei annog i gymryd dull hyblyg wrth benderfynu pa fangreoedd a gâi'u hystyried yn rhai wedi'u lleoli ar y 'Stryd Fawr'.

Cyfeiriodd y Swyddog Aelodau'r Cabinet at Adran 6 o'r adroddiad lle'r oedd y manteision posibl i fusnesau yn Rhondda Cynon Taf wedi'u hamlinellu. Amcangyfrifwyd y byddai tua 824 o drethdalwyr yn gymwys, gyda gwerth amcangyfrifedig o £645,000 yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

O ran ochr weithredol y Cynllun, esboniodd y Swyddog y daethpwyd i gytundeb gyda swyddogion o Gynghorau Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, a Phen-y-bont ar Ogwr er mwyn mabwysiadu dull cyson mewn rhanbarth ddaearyddol ehangach. Esboniwyd y câi ffurflenni cais eu hanfon, yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, i bawb sy o bosibl yn gymwys. Byddai'n ofynnol i bawb sy'n gymwys nodi na fyddai'r dyfarniad rhyddhad yn mynd yn uwch na throthwy Cymorth Gwladwriaethol. Wrth dderbyn ffurflen gais a dogfennau Cymorth Gwladwriaethol ategol, câi rhyddhad ei roi pan roedd y meini prawf cymhwysiad wedi cael eu bodloni. Câi'r atebolrwydd trethi wedi'i ddiwygio ei gyfrifo, a hysbysiadau addasu eu hanfon at bob ymgeisydd llwyddiannus. Yn ogystal â hyn i gyd, byddai gwybodaeth am y Cynllun, ac am sut i wneud cais, ar gael ar wefan y Cyngor.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol yn gadarnhaol am y Cynllun, gan nodi y byddai o gymorth i adfywio canol trefi Rhondda Cynon Taf, ochr yn ochr â chynlluniau eraill fel, er enghraifft,

technolog WiFi canol tref, a gwneud gwaith ar flaenau siopau lleol. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod yn bleser arbennig gweld yr amcangyfrifon wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, a allai fod yn fuddiol iawn i nifer fawr o fusnesau, os byddant yn gymwys.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi manylion 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu Stryd Fawr Cymru' ('Y Cynllun') wedi'i bennu yn yr adroddiad;
- b) Y bydd Adran 47(1) (a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Y Ddeddf'), (mewn perthynas â rhyddhad drwy ddisgresiwn) oni bai fod meddiannau eiddo wedi'u heithrio o dan (c) isod, yn gymwys o ran y meddiannau eiddo a ddisgrifir yn 'Y Cynllun' yn unol â'r rheolau a ddisgrifir mewn perthynas â'r meddiannau eiddo hynny;
- c) Nad yw rhyddhad ar gael o dan 'Y Cynllun' i'r meddiannau eiddo hynny sydd wedi'u heithrio o ryddhad ardrethi disgresiynol o dan Adran 47 (9) o 'Y Ddeddf', er enghraifft, meddiannau eiddo ym meddiant awdurdod lleol neu awdurdod praeseptio.
- d) Y bydd 'Y Cynllun', ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 yn berthnasol i'r mathau o fangreoedd a ddisgrifir yn yr adroddiad yma, ac y dylai Cyfarwyddydd Cyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ddefnyddio'i bwerau dirprwyedig er mwyn cymhwyso'r rhyddhad i drethdalwyr cymwys.

5. STRATEGAETH DDIGIDOL Y CYNGOR 2017-18 – 2019-20

Cyflwynodd Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yr adroddiad sy'n nodi Strategaeth Ddigidol y Cyngor ('Rhondda Cynon Taf Ddigidol - Ein Gweledigaeth Ddigidol 2020') ar gyfer cyfnod 2017-18 i 2019-20..

Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at Atodiad 1 o'r adroddiad lle'r oedd y Strategaeth Ddigidol dair blynedd wedi'i nodi. Esboniodd y Swyddog y byddai'r fframwaith clir a gyflenwir yn cynorthwyo'r Cyngor i reoli gwaith cyflwyno, mesur cyflawniad, ac asesu deilliannau.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Cabinet fod pump o elfennau thema gwaith cyflwyno strategol allweddol i'w cael, pob un a chanddo ddangosyddion cyflawni penodol a nodwyd:-

1. Preswlydd Digidol
2. Medrau Digidol
3. Gweithle Digidol
4. Ymwelydd Digidol
5. Busnes Digidol

Esboniwyd y byddai'r Strategaeth Ddigidol dair blynedd uchelgeisiol a ymddangosai o'u blaenau o fudd i breswylwyr Rhondda Cynon Taf drwy sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar eu hôl.

Achubodd Arweinydd y Cyngor y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am baratoi'r Strategaeth dair blynedd, gan nodi ei bod yn bleser arbennig gweld fod y staff yn cofleidio'r cyfleoedd digidol sydd ar gael.

Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol fod yr ateb digidol, yn ogystal â gyrru'r agenda effeithlonrwydd o fewn y Cyngor, yn golygu cael gwasanaeth mwy syml ar gyfer y staff a phreswylwyr Rhondda Cynon Taf.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol E. Webster am yr eitem yma

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo Strategaeth Ddigidol 2020 y Cyngor.
- b) Cymeradwyo sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth Digidol, gyda'r rôl o fod yn gyfrifol am y canlynol :-
 - Hyrwyddo'r Strategaeth Ddigidol o fewn y Cyngor, a thrwy'i drefniadau partneriaeth.
 - Monitro cynnydd a gwaith cyflwyno'r Strategaeth Ddigidol a'i ddangosyddion cyflawniad.
 - Parhau i ddiweddarau'r Strategaeth Ddigidol, a'r strategaeth ehangach, er mwyn adlewyrchu arfer gorau a thueddiadau digidol wrth iddynt newid.
 - Nodi unrhyw anghenion ariannol ychwanegol mewn perthynas â gwaith cyflwyno'r strategaeth yma.

6. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Cyfarwyddyd Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, yr adroddiad, gan roi gwybod i Aelodau o'r Cabinet am ddeilliannau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gymerwyd o ran y cynnig arfaethedig i wneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMGC) er mwyn cyflwyno mesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf.

Esboniodd y Cyfarwyddyd Gwasanaeth fod baeddu gan gŵn yn dal yn bryder arwyddocaol i'r Cyngor, a bod lleiafrif o berchnogion cŵn o hyd, er gwaethaf ymdrechion helaeth i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn ac i orfodi darpariaethau Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996, sy ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn, neu'u cadw dan reolaeth.

Aeth y Swyddog ymlaen i esbonio y byddai cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn fodd i ganiatáu i'r Cyngor gyflwyno ystod o gyfyngiadau rhesymol ar sut i ddefnyddio tir sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Esboniodd y Swyddog i'r ymgynghoriad fod yn llwyddiant, gydag amrywiaeth o wahanol randdeiliaid, fel yr Heddlu, er enghraifft, yn mynegi eu cefnogaeth. Cyfeiriodd Aelodau o'r Cabinet at Adrannau 5.2 a 5.3 o'r Adroddiad, lle'r oedd adborth allweddol o'r broses ymgynghori wedi'i amlinellu.

Esboniwyd bod 542 o ymatebion ar-lein wedi dod i law, a'u bod wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Cefnogai 90% o ymatebwyr ddull arfaethedig y Cyngor tuag at ymdrin â baeddu gan gŵn,
- Dywedodd 91.2% o ymatebwyr eu bod yn cytuno y dylid gwahardd baeddu gan gŵn,
- Cytunodd 86.8% o ymatebwyr y dylid cadw cŵn ar denyynnau mewn meysydd chwarae.
- Cytunodd 94.2% o ymatebwyr y dylid cadw cŵn ar denyynnau mewn mynwentydd,
- Cytunodd 97.6% o ymatebwyr y dylid mynnu bod perchnogion cŵn yn cario bagiau, neu ddull addas arall, i gael gwared â baw eu cŵn,
- Cytunodd 93.1% o ymatebwyr y dylai swyddogion awdurdodedig roi cyfarwyddiad i berchnogion cŵn os bydd angen hynny,
- Dywedodd 85.3% o ymatebwyr y dylid gwahardd cŵn o bob ysgol,
- Cytunodd 80.7% o ymatebwyr y dylid gwahardd cŵn o bob maes chwaraeon wedi'i farcio,
- Cytunodd 88.1% o ymatebwyr y dylid cynyddu swm y gosb benodedig i £100,
- Cytunodd 59% o ymatebwyr y dylid newid y rheolau er mwyn caniatáu cŵn mewn mynwentydd, ar yr amod eu bod ar dennyn.

Aeth y Swyddog ymlaen i grynhoi'r canfyddiadau allweddol yn sgîl yr achlysuron ennyn diddordeb y cyhoedd.

- Mae 99% o ymatebwyr yn cytuno y dylid gwahardd achosion o gŵn yn baeddu ym mhob man cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf,
- Mae 98% o ymatebwyr yn cytuno y dylid mynnu bod cŵn ar dennyn mewn meysydd chwarae ym meddiant y Cyngor, neu yn y rheiny mae'r Cyngor yn eu cynnal,
- Mae 100% o ymatebwyr yn cytuno y dylid mynnu bod perchnogion cŵn yn cario bagiau, neu ddull addas arall, i gael gwared â baw eu cŵn,
- Mae 99% o ymatebwyr yn cytuno y dylid rhoi hawl i swyddogion awdurdodedig roi gorchymyn bod ci yn cael ei roi ar dennyn a'i gadw fel hynny,
- Mae 90% o ymatebwyr yn cytuno y dylid gwahardd cŵn rhag mynd ar feysydd chwaraeon sydd wedi'u marcio ym meddiant y Cyngor, neu'r rheiny mae'r Cyngor yn eu cynnal, ac

- Mae 91% o ymatebwyr yn cytuno y dylid cynyddu swm y gosb benodedig i'r uchafswm a ganiateir, sef £100.

Esboniodd y Swyddog fod y ganran yn cynyddu i 91% yn yr achlysuron ymgysylltu â'r cyhoedd, er taw dim ond 59% o ymatebwyr ar-lein oedd o blaid caniatáu i gŵn fynd i fynwentydd ar yr amod eu bod ar dennyn. Fe allai hyn o bosibl fod oherwydd mwy o drafodaethau gyda'r swyddogion oedd yn bresennol,

Cyfeiriodd Aelodau'r Cabinet at Adran 5.7 o'r adroddiad, lle'r esboniwyd bod yr ymgynghoriad wedi gofyn a ddylid ei wneud yn ofynnol i gŵn gael eu cadw ar denyndau mewn meysydd chwarae. Teimlai'r Swyddog ei bod yn bwysig i Aelodau nodi bod llawer o breswylwyr yn teimlo'n gryf y dylai'r gwaharddiad cyfredol ar gŵn mewn meysydd chwarae barhau o hyd, gan ddatgan y dylai'r maes chwarae fod yn fan i blant gael rhedeg yn rhydd.

Wrth i'r Swyddog gloi'r Adroddiad, fe argymhellodd efallai y bydd raid cynyddu'r Garfan Gorfodi yn y Gwasanaethau Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i 10 swyddog, er mwyn gweithredu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Achubodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden y cyfle i ddiolch i swyddogion a phreswylwyr am yr ymarfer ymgynghori llwyddiannus, gan nodi ei bod yn bleser arbennig gweld cynifer o'r preswylwyr a rhanddeiliaid yn mynegi'u barn am y mater.

Mynegodd yr Aelod o'r Cabinet y farn ei bod o blaid caniatáu i gŵn fynd i fynwentydd, ar yr amod eu bod ar denyndau, gan y byddai hyn o fudd i bobl oedrannus yn benodol.

Cyfeiriodd yr Aelod at Adran 5.6 o'r Adroddiad, a ddywedai fod argymhelliad yn cael ei drafod i osod gwaharddiad yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, gan wahardd cŵn o bob maes chwarae sy'n eiddo i'r Cyngor a/neu sy'n cael ei gynnal a'i gadw ganddo, a hynny oherwydd yr ymateb i'r Ymgynghoriad.

Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i sgwrs i ben drwy fynegi pa mor bwysig yw hi i gyfleu unrhyw newidiadau i'r preswylwyr, yn unol ag Argymhelliad 2.6 o'r Adroddiad.

Ychwanegodd Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant fod mater baeddu gan gŵn yn amlwg ym mhob ward y Cyngor, a'i bod yn bleser arbennig gweld yr argymhellion wedi'u hamlinellu.

Canmolodd yr Arweinydd swyddogion a phreswylwyr am eu gwaith yn ystod yr ymgynghoriad, gan nodi bod mater baeddu gan gŵn yn cael eu codi yn aml gan breswylwyr, ac y byddai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus o fudd

i'r gymuned. Ychwanegodd y byddai cynyddu swm y gosb benodedig yn gweithredu fel cymhelliad i berchnogion cŵn fod yn fwy cyfrifol.

Esboniodd yr Arweinydd y byddai'r holl arian a ddeuai o gosbau penodedig yn sgîl y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd yn cael ei roi i'r gwasanaeth drachefn, er mwyn ariannu bagiau a biniau ychwanegol.

Cytunodd yr Arweinydd â'r argymhelliad pellach i wahardd cŵn o feysydd chwarae, gan nodi bod digonedd o ardaloedd mynyddig i'w cael yn y Cymoedd lle mae modd i gŵn gerdded heb gyfyngiadau.

Dilynodd Trafodaethau ynghylch diffiniad man chwarae, ac a fyddai ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd a chaeau chwaraeon yn cael eu cynnwys. Esboniodd y Cyfarwyddyd Gwasanaeth, os bydd Aelodau o'r Cabinet yn dymuno cynnig yr argymhelliad newydd, y ceir diwygio'r polisi er mwyn adlewyrchu'r man yn well fel 'ardaloedd hamdden'.

Yn ogystal â hynny,, cododd yr Arweinydd gwestiwn, mewn perthynas â'r Swyddogion Gorfodi newydd a'u horiau gwaith. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd y câi system shifftiau ei datblygu er mwyn sicrhau y byddai staff ar gael saith diwrnod yr wythnos.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. Bradwick ac E. Webster am yr eitem yma.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cefnogaeth aruthrol y cyhoedd o blaid cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus er mwyn cyflwyno gwaharddiadau a gofynion mewn perthynas â rheolaeth ar gŵn.
- b) Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a phenderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gwaharddiadau a gofynion arfaethedig mewn perthynas â rheolaeth ar gŵn fel y nodir yn Atodiad 2
- c) Gwneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer rheolaeth ar gŵn fel y nodir yn Atodiad 2.
- d) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth, lechyd a Diogelwch y Cyhoedd, drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, am lunio'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus olaf sy'n ymwneud â mesurau rheoli cŵn, a sicrhau y caiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- e) Ariannu gwaith gweithredu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn 2017/18 drwy adnoddau cyfredol sydd ar gael, gan gynnwys cynyddu'r Garfan Gorfodi o fewn Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i 10 swyddog.
- f) O gofio yr ymateb i'r ymgynghoriad, gosod gwaharddiad yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, gan wahardd cŵn o bob maes chwarae sy'n eiddo i'r Cyngor a/neu sy'n cael ei gynnal a'i gadw ganddo, a hynny yn sgîl yr ymateb i'r Ymgynghoriad.

g) Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth a marchnata broffil uchel cyn dyddiad dechrau arfaethedig y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar 1 Hydref 2017.

7. TREFNIADAU DIOGELWCH TÂN AR GYFER TAI CYMDEITHASOL, TAI Â CHYMORTH, TAI AMLFEDDIANNAETH, AC ADEILADAU SY'N EIDDO I'R CYNGOR

Wrth ymateb i drasiedi tân Tŵr Grenfell yn Llundain, cyflwynodd Cyfarwyddyd Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet am ymholiadau ynglŷn â diogelwch tân a rhagofalon tân ym meddiannau eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf.

Esboniodd y Swyddog nad oedd unrhyw dyrau aml-lawr yn Rhondda Cynon Taf a bod llety sy'n cael ei gyflenwi gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyffredinol yn fflatiau hunangynhwysol mewn blociau llai ac is, heb fod yn fwy na phum llawr o uchder fel arfer.

Esboniodd y Swyddog fod ymatebion wedi dod i law oddi wrth bedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cyflenwi mwyafrif y llety ar rent cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf. Mae pob un ohonynt wedi cadarnhau eu bod yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, gan sicrhau bod asesiadau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau yn gyson a'u bod wrthi'n frwd yn ceisio rhoi tawelwch meddwl i'w tenantiaid.

Esboniwyd bod y Cyngor yn dal i aros am ymateb oddi wrth ddarparwyr tai â chymorth ac oddi wrth y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n weddill oedd â llai o feddiannau eiddo yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, byddai'r ymholiadau wedi'u cwblhau o fewn yr ychydig ddyddiau nesaf.

O ran mater cladin allanol, fe sicrhodd y Swyddog yr Aelodau fod gwiriadau pellach i bob un o'r holl adeiladau mawr ac ysgolion sy'n eiddo i'r Cyngor yn mynd rhagddo, gyda Gwasanaeth Rheoli Adeiladu'r Cyngor yn gwneud gwiriadau pellach hefyd mewn perthynas â systemau inswleiddio waliau allanol wedi'u gosod mewn mannau eraill ym mhob rhan o Rhondda Cynon Taf. Ychwanegwyd bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwneud ymchwiliadau pellach i ddiogelwch y nwyddau a ddefnyddir ar eu meddiannau eiddo, er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'w tenantiaid.

Dywedodd y Swyddog wrth gloi fod y Cyngor wedi cyflwyno cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a oedd yn cynnwys pob Tŷ Amlfeddiannaeth yn Rhondda Cynon Taf; cynhwysai hyn amodau sy'n Cynnwys rhagofalon tan, gyda'r meddiannau eiddo yn destun archwilio rheolaidd.

Mynegodd yr Aelodau Cabinet eu diolch i'r Swyddogion am ymateb i'r tân mor gyflym.

Cododd Aelod o'r Cabinet dros Fenter, Datblygu a Thai gwestiwn mewn perthynas â'r llety bloc tŵr ar Gampws Trefforest Prifysgol De Cymru, ac a gaiff gwiriadau eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch y rheiny sy'n cael eu lletya yno ar hyn o bryd. Er bod hyn y tu allan i reoliadau'r Cyngor, esboniodd y Swyddog y caiff ymholiadau eu gwneud cyn gynted ag y bo modd.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at werth craffu ar fater mor bwysig, gan awgrymu argymhelliad pellach i gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant ac i gynnwys cyrff tenantiaid, darparwyr tai cymdeithasol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a chyrff cysylltiedig yn rhan o'r gwaith. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y dylid rhoi gwybod i'r Corff Gweithredol am yr adborth, i'w drafod ar ddyddiad diweddarach, a chytunodd Aelodau eraill o'r Cabinet â hynny.

Nododd yr Arweinydd fod y darparwyr tai cymdeithasol lleol wedi bod yn gyflym i weithio gyda'r Cyngor ar y mater, gan ychwanegu bod Cymdeithas Tai Trivallis wrthi'n cynnig diweddarau drysau tân yn rhad ac am ddim meddiannau eiddo mewn blociau oedd eisoes wedi cael eu gwerthu cyn hynny, a thrwy hynny yn pwysleisio'r gweithdrefnau diogelu o fewn y bloc yn ei gyfarwydd.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Y dylai'r Pwyllgor Craffu priodol, sef Gwasanaethau Cyhoeddus, dafod y mater, gan ymgysylltu â chyrff tenantiaid, darparwyr tai cymdeithasol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a chyrff cysylltiedig eraill, yn rhan o'r gwaith. Dylid rhoi gwybod am yr adborth Craffu i'r Cabinet ac, os bydd angen hynny, dylai gynnwys argymhellion priodol i'w trafod.
- c) Taw'r Cyfarwyddydd Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sydd i wneud unrhyw ymholiadau pellach sy efallai'n angenrheidiol er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am

Y Cynghorydd A. Morgan

Cadeirydd